CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 10fed o Ragfyr 2025 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, John P Roberts, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Catrin Jones Johnson, Idris Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Lynne Mcrickett.
   Mynegwyd gydymdeimlad y Cyngor gyda'r Cynghorydd Arfon Hughes a'i deulu yn y profedigaeth o golli ei fam.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar yr 8fed Hydref 2025**.

   Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost ddanfonwyd i bawb yn gynharach yn y prynhawn gan Cyng Arfon Hughes yn cynnig bod rhai paragraphau yn cael eu dileu o gofnodion 8.10.25. Rhoddwyd cyfle i'r Cyng Arfon Hughes ddarllen ei e-bost i bawb. Ni chafwyd eilydd i hyn a gwahoddwyd sylwadau gan bawb.

   Yn dilyn un newid, cadarnhwyd gofnodion 8.10.25 ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng Sion Alun Roberts.

   O ran trefniadau i'r dyfodol, penderfynwyd ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis i gadw at y drefn arferol o gofnodi yn llawn gyda phob pwnc.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Priffyrdd a Chefnffyrdd ers y tro diwethaf. Yng nghyswllt torri gor-dyfiant ger Penybont, nodwyd fod y gwaith ar dir sy'n perthyn i Hen dy Camlan (Fire Cat ) yn parhau heb ei wneud, ac roedd angen atgoffa eto.

b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** nododd y Clerc fod gohebiaeth gan David Flatley ac Alex Glanville o'r Eglwys yng Nghymru wedi eu dosbarthu I bawb ymlaen llaw. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i gludo asbestos drwy'r fynwent, ac nad oedd sylw pellach gan y Cyngor Cymuned.

**c) Pwyllgor yr Hen Fynwent** – adroddwyd am gyfarfod gyda Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd ar y 10fed o Dachwedd, a'r e-bost ganddo dyddiedig 10fed Tachwedd (a oedd wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr) Penderfynwyd, ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Idris Jones i dderbyn yr argymhelliad i beidio cymryd cyfrifoldeb am yr hen fynwent, a diolchwyd i'r Cyng John P Roberts am gytuno i ymdrin ymhellach efo hyn gyda Chyngor Gwynedd, a chysylltu gyda'r unig ymddiriedolwr o'r hen fynwent am y mater.

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** - Penderfynwyd gadael hyn unwaith eto nes cael mwy o sicrwydd am gael grant, a gofyn a oedd modd gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd byddai'r Clerc yn trafod ymhellach gyda Chyngor Gwynedd.

e) **Torri gwair mynwentydd** – yn dilyn y trafod y tro diwethaf a'r hysbyseb yn y wasg, adroddwyd mai un contractor oedd wedi cysylltu, sef Gareth Wyn Davies. Ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Sion Alun Roberts, cytunwyd yn unfrydol rhoi i gwaith iddo ar y pris a gynigiwyd, sef £900 y toriad am y 3 mynwent (cyfanswm felly o £2700 am 3 toriad y flwyddyn)  Cadarnhawyd drefniant torri gwrychoedd fel yn flaenorol.

f) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nodwyd nad oedd gohebiaeth pellach gan Stuart England.

g) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned -  ystyriwyd y diweddaraf. Roedd ad-daliad am y byrddau/meinciau (£3595) a gwaith yn yr hen fynwent (£2700) wedi ei dderbyn. Addawodd Cyng Wyn Lewis ymdrin a phryniant y compost/bylbiau (hyd at £148) ac addawodd Cyng Arfon Hughes a Cyng John P Roberts barhau gyda gwaith efo'r enwau creigiau Cywarch, i'w rhoi mewn hysbysfwrdd. Cadarnhawyd y gellir talu y costau yn union fel y maent yn y cais gwreiddiol, sef Dylunio £180, Ffram/ panel gwybodaeth £664, codi'r Bwrdd Gwybodaeth £200. Pwysleisiwyd fod rhaid cael y cyfan wedi ei orffen mor fuan a phosib, gan fod rhaid gwneud cais am ad-daliad cyn diwedd y flwyddyn. Diolchwyd i bawb am eu gwaith.

h) **Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell –** nid oedd diweddariad am y sefyllfa.

i) **Gohebiaeth ynglyn a tario y ffordd i Ty'n y Braich –** cadarnhawyd nad oedd angen gwneud dim ymhellach am y tro. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Johnson)

j) **Gohebiaeth Swyddfa Bost**, Dinas Mawddwy – adroddodd y Clerc am ei ohebiaeth, ond nid oedd ymateb pellach ynglyn a chael fan swyddfa bost yn yr ardal yn achlysurol.

k) **Toiledau Dinas -** darllenwyd yr ymateb, ac roedd hyn wedi ei ddatrys.

## 5. Materion Cynllunio

Roedd un cais i law, sef  NP5/74/76C - **Lleoli 1 uned gwyliau a gwaith cysylltiedig ar dir Dolbrawdmaeth, Dinas Mawddwy**

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Catrin Johnson na allai'r Cyngor Cymuned fod yn gefnogol gan nad oedd hwn yn arallgyfeirio fferm.

(Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng John P Roberts pan drafodwyd hyn)

## 6.Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon,** (10.12.25),  sef Cyfri Cyfredol £9849.22, Cyfri Claddedigaeth £1102.79 Cyfri Cadw £798.89.

   Cadarnhawyd y gyllideb i wariant y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn 2026-27. **Ar sail hyn, ac ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Catrin Johnson, penderfynnwyd cynyddu y praesept ar gyfer 2026-27 i £15,000.**

b) **Anfonebau i'w talu – cytunwyd gyda'r canlynol;**

- Cost torch Sul y Cofio - £25
- Hysbyseb torri gwair yn Llygad y Dydd - £20
- Hysbyseb torri gwair Blewyn Glas - £15
- Cyfraniad Toiledau Cyhoeddus Dinas i Gyngor Gwynedd - £2000
- Sioe Dinas Mawddwy £50 – sef cyfraniad ar gais Geraint Gwanas fel cydnabyddiaeth am ei rodd o goeden nadolig o flaen y Neuadd.
- Cydnabyddiaeth y Clerc £485.04 a HMRC £121.20

c) **Ceisiadau am arian – penderfynwyd fel a ganlyn;**

- Apel Cronfa Cyfle i bawb Urdd Gobaith Cymru - £230
- Penderfynwyd peidio cyfrannu Eisteddfod yr Urdd Ynys Mon 2026, ac Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Meirionnydd
- Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Theatr Bara Caws yn dilyn y cyfarfod diwethaf, ond na chafwyd ymateb.

**7.Gohebiaeth.**

**a)** Nodwyd **Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru** ac roedd y Clerc wedi eu cylchredeg.

**b)** Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus Dinas Mawddwy – nodwyd ohebiaeth yn cadarnhau y bydd y gost yn codi i £2720 ar gyfer 2026-27.

**c)** Nodwyd hysbysiad i law gan Cyng Geraint Morgans am ei ddymuniad i sefyll i lawr o fod yn Gynghorydd Cymuned. Diolchwyd yn fawr iawn iddo am ei waith dros y blynyddoedd. Gofynnwyd a allai hwn gael ei roi ar agenda y cyfarfod nesaf.

**d)** Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda gyda Ysbyty Bronglais – nodwyd fod y diweddaraf wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr

e) Nodwyd gadarnhad gan Ben Thomas am gladdedigaeth ym mynwent Dinas Mawddwy Ddydd Mawrth 16eg Rhagfyr.

f) Nodwyd ohebiaeth gan Claire Griffiths 1 Bryn Dyfi, Dinas Mawddwy ynglyn a 3 goeden conifer ar dir comin gerllaw. Roedd pryder am ddiogelwch a difrod i'w heiddo. Cadarnhodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld a hi yn gynharach yn y dydd, ac y byddai yn dilyn hyn fynny eto. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd (sydd a'r cyfrifoldeb am hyn) ac hefyd cytunodd Cyng John P Roberts gynorthwyo. Nodwyd fod yr un broblem ar gomin Dolybont.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Roedd angen glanhau sawl arhosfan bws yn yr ardal, ac roedd angen danfon hyn ymlaen i 'Tim Tacluso ' Cyngor Gwynedd.

b) Roedd hysbysfwrdd Llanymawddwy ar lawr ac angen sylw.

c) Roedd dwr yn parhau ar faes parcio Neuadd Aberangell yn dilyn y gwaith yno gan Gyngor Gwynedd. Roedd angen iddynt ymweld gan fod angen mwy o waith.

d) Roedd angen llenwi ochr y ffordd ger y fynedfa i bentref Aberangell ( ochr chwith y ffordd gyferbyn a maes carafannau)

e) Roedd angen atgoffa Cyngor Gwynedd am yr angen i gael arwydd i gyfeirio pobl i'r maes parcio yn y Plas yn Dinas, gan fod ceir yn parcio yn y man troi. Hefyd atgoffa ADRA nad oedd modd parcio yn y man troi.

f) Cytunwyd ar drefniadau i dynnu lawr y goeden Nadolig o flaen y Neuadd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 21ain Ionawr 2026, 7.30 y.h.**